**Datganiad Blynyddol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil**

**Tachwedd 2024**

## Rhagair

1. Cenhadaeth Prifysgol Caerdydd yw cyd-greu a rhannu gwybodaeth newydd, er mwyn darparu byd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (Ein Dyfodol, gyda'n gilydd: Ein Llwybr hyd at 2035).

2. Mae ymchwil yn rhan greiddiol o'n hunaniaeth sefydliadol, ac mae'r Brifysgol yn dyheu i fod gyda'r gorau o ran creu gwybodaeth ac offer newydd, a hynny yng nghyd-destun byd ymchwil sy'n fywiog ac yn gynhwysol.

3. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ('REF') 2021, cadarnhawyd bod 90% o'n hymchwil gyda'r gorau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Mae hyn yn golygu ein bod ymhlith yr 20 prifysgol orau yn y DU am safon gyffredinol ein hymchwil. Mae'r Brifysgol yn ceisio gwella ei safle ymhellach ac yn cofleidio'r her hon ar lwyfan ryngwladol sy'n fwyfwy cystadleuol.

4. Mae Gonestrwydd Ymchwil, moeseg ac ymchwil agored yn rhan hanfodol o'n gweledigaeth ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal egwyddorion y Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil ('Concordat') ac i gefnogi ein hymchwilwyr i gynnal ymchwil i'r safonau cywirdeb uchaf.

## Y diben a'r cyd-destun

5. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu cymryd i gefnogi safonau uchel o Onestrwydd Ymchwil, mae'r Concordat yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cyflogwr ymchwilwyr yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiad blynyddol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil ('Y Datganiad Blynyddol'), sy'n rhoi'r canlynol:

    5.1. Crynodeb o gamau a gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw er mwyn cynnal a chryfhau'r broses o ddeall a defnyddio Gonestrwydd Ymchwil;

    5.2. Sicrwydd bod y prosesau sydd yn eu lle i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;

    5.3. Datganiad lefel uchel ynghylch unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn o ran ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys data ar nifer yr ymchwiliadau;

    5.4. Datganiad ynghylch yr hyn y mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu yn sgil unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys pa wersi a ddysgwyd i atal yr un math o ddigwyddiad rhag digwydd eto; a

5.5. Datganiad ynghylch sut mae'r Brifysgol yn creu ac yn ymgorffori diwylliant ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.

6. Dyma wythfed Datganiad Blynyddol y Brifysgol. Pan gaiff ei gymeradwyo gan grwpiau a phwyllgorau perthnasol y Brifysgol, bydd y Datganiad Blynyddol ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan a darperir dolen i Ysgrifenyddiaeth y Concordat. Mae hen Ddatganiadau Blynyddol y Brifysgol ar gael i'r cyhoedd o hyd ar ein tudalen we "Gonestrwydd Ymchwil a'i Lywodraethu".

**Y cyfnod y mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn berthnasol iddo**

7. Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r camau a'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024 er mwyn cryfhau Gonestrwydd Ymchwil. Mae hefyd yn rhoi'r sicrwydd a'r datganiadau sy'n ofynnol ar gyfer camymddygiad dros yr un cyfnod.

**Camau gweithredu a gweithgareddau (Blwyddyn Academaidd 2023/2024)**

Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, mae'r Brifysgol wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i helpu i gefnogi a chryfhau Gonestrwydd Ymchwil. Crynhoir y gweithgareddau allweddol yn ystod y cyfnod hwn isod.

8. Datblygu ein 'Cynllun Gweithredu Gonestrwydd Ymchwil' sefydliadol

8.1. Yn 2023, cyhoeddodd y Brifysgol ei Chynllun Gweithredu Gonestrwydd Ymchwil cyntaf i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ganlyniad i adolygiad mewnol manwl ac ymarfer myfyrio dan arweiniad ein tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg ('RIGE'), gan ddefnyddio Offeryn Hunanasesu UKRIO.

8.2. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, mae cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu wedi'i adolygu'n rheolaidd a'i adrodd i'n Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored ('ORIEC'). Ym mis Mai 2024, ac i wella tryloywder, roedd y Cynllun Gweithredu cyhoeddedig hefyd yn cynnwys cod lliw i nodi pa gamau sydd wedi'u cyflawni a'r rhai lle y gwnaed cynnydd sylweddol.

8.3. Ar ddyddiad paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn, mae 75% o'r camau gweithredu oedd â dyddiad targed ar neu cyn Medi 2024 wedi'u cwblhau neu ar y gweill a disgwylir eu cwblhau'n fuan. Dylid nodi bod dyddiad targed dau gam gweithredu wedi'i ymestyn i gyd-fynd â'r cylch adolygu safonol ar gyfer y polisi neu weithdrefn berthnasol. Mae 14 o gamau gweithredu i'w cwblhau nad ydynt wedi'u cychwyn eto a/neu sydd wedi'u gohirio. Mae hyn oherwydd amrywiaeth o ffactorau mewnol ac allanol, gan gynnwys:

- yr angen i ail-flaenoriaethu adnoddau a chefnogaeth i feysydd gweithgaredd eraill, lle bo angen; a
- mynd ar drywydd cyfleoedd cydweithredol sydd wedi codi gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol a allai wella effeithlonrwydd a chynhyrchu canlyniadau gwell i'n cymuned ymchwil.

8.4. Mae ORIEC yn fodlon ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu hyd yma ac ar y ffaith nad yw'r camau gweithredu sy'n weddill

a nodir yn y Cynllun Gweithredu yn tanseilio nac yn amodi'r sicrwydd a ddarperir yn y Datganiad Blynyddol hwn.. Mae ORIEC yn falch bod ei staff yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn weithredol â rhanddeiliaid allanol a'u bod yn gallu addasu i flaenoriaethau sy'n newid a sicrhau bod cymorth yn cael ei ganolbwyntio lle mae ei angen fwyaf.

9. Cod Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu ('RI CoP')

9.1. Y Cod Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu yw ein fframwaith sefydliadol (polisi) ar gyfer Gonestrwydd Ymchwil. Mae'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud ag ymchwil yn y Brifysgol ac fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo arfer ymchwil da trwy gydol y cylch bywyd ymchwil ac i helpu i sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cyflawni safonau uchaf Gonestrwydd Ymchwil. Mae'r Cod Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu yn destun cylch adolygu tair blynedd, yn unol â'r polisi ei hun a'n Cynllun Gweithredu Gonestrwydd Ymchwil. Adolygwyd, diwygiwyd a chyhoeddwyd y Cod Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu ddiwethaf yn 2023. Mae disgwyl i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal yn 2026.

10. Rhaglen Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil Ar-lein ('Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil')

10.1. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, cwblhaodd tua 1,100 aelod o staff a 2,100 o fyfyrwyr (gan gynnwys myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir ac israddedigion) Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol. I'ch atgoffa, mae cwblhau ein Hyfforddiant RI yn orfodol i'r holl Staff Academaidd (oni bai ei fod wedi'i eithrio[1]) ac yn orfodol i bob myfyriwr sy'n dilyn rhaglenni astudio Doethurol, MRes neu MPhil. Mae cwblhau'r hyfforddiant hefyd yn elfen orfodol o brosesau ymchwil mewnol amrywiol eraill ac fe'i hargymhellir yn fawr i unrhyw un arall sy'n ymwneud ag ymchwil.

10.2. Fel y crybwyllwyd mewn Datganiadau Blynyddol blaenorol, mae sicrhau bod yr holl unigolion y mae'r hyfforddiant ar onestrwydd ymchwil yn orfodol iddynt (ynghyd â gweithgarwch monitro ac adrodd) yn cwblhau'r Hyfforddiant Unigolyn Cyfrifol yn her ac yn dasg weinyddol sylweddol. Mae trafodaethau mewnol yn mynd rhagddynt ynghylch sut y gellir gwella hyn, yn enwedig o ystyried maint a strwythur y Brifysgol.

10.3. Cafwyd rhai diweddariadau i gynnwys Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, yn fwyaf nodedig yr ychwanegiadau canlynol:
- "Codi pryder ynghylch Gonestrwydd Ymchwil";
- "Hyrwyddo Gonestrwydd Ymchwil" – canllawiau ac awgrymiadau ar gyfer arweinwyr/goruchwylwyr/rheolwyr ynghylch ymgynghori diwylliant cadarnhaol o Onestrwydd Ymchwil;
- Deallusrwydd Artiffisial;

[1] Mae gan y Brifysgol broses cais am eithriad y gall Ysgolion ei defnyddio i ofyn am eithriad ar gyfer staff penodol ar gontractau T&S nad ydynt yn ymwneud â gweithgarwch ymchwil. Mae yna broses lem y mae angen i Ysgolion ei dilyn ac mae pob cais eithrio yn cael ei adolygu (ac os yw'n briodol, ei gymeradwyo) gan ORIEC.

- Pwyntiau dysgu o geisiadau i Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion;
- Ymchwil Ddibynadwy;
- Data cryno a gwersi a ddysgwyd o achosion diweddar Camymddwyn Ymchwil;
- Pynciau llosg ynghylch moeseg cyhoeddi, sef: cyfnodolion rheibus, disgwyliadau wrth gyflawni swyddogaethau golygyddol a “chyfranogaeth”/CRediT.

11. Moeseg Ymchwil

11.1. Bu llawer iawn o weithgarwch gyda'r nod o ddatblygu ein hymagwedd at adolygu moesegol a chefnogi ein Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion ('SRECs') a'n cymuned ymchwil yn well. Dyma rai enghreifftiau yn unig o weithgarwch perthnasol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024:

- **Peilot o broses adolygu moesegol newydd ar draws modiwlau ar gyfer gweithgarwch israddedigion a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir**
  Mae cynllun peilot o’r broses adolygu moesegol ar draws modiwlau, y ‘Fframwaith Moeseg Modiwl’, wedi bod ar waith drwy gydol blwyddyn academaidd 2023/24. Bydd y peilot yn parhau yn ystod Blwyddyn Academaidd 2024/2025. Mae 11 o ysgolion, ar draws y tri choleg, yn ymwneud â'r peilot

  Mae adborth a dderbyniwyd (gan wyth o'r ysgolion peilot) ar flwyddyn un y peilot yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i ORIEC i'w ystyried. Mae'r arwyddion cychwynnol yn dangos bod dull y Fframwaith Moeseg Modiwl wedi hwyluso gwell cyfathrebu rhwng myfyrwyr, goruchwylwyr a Phwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol (SREC), gan wella ymwybyddiaeth o ofynion adolygu moesegol a lleihau llwyth gwaith gweinyddol SREC. Mae'n bwysig nodi bod rhai heriau o hyd o ran ymgysylltu a gweithredu ar gyfer gweithgareddau addysgu (yn hytrach na gweithgareddau traethawd hir). Bydd y broses a'r dogfennau ategol yn cael eu mireinio yn ystod ail flwyddyn y cyfnod peilot, a bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan unrhyw heriau yn ystod gweithredu ac adborth gan y gymuned ymchwil.

- **Cwmpasu cychwynnol system foeseg ar-lein**
  Nod prosiect Gwasanaeth Ymchwil y Dyfodol yw gwella systemau ymchwil ac arloesi'r Brifysgol. Mae Worktribe, sef darparwr meddalwedd rheoli ymchwil sy’n arwain y sector, wedi’i gaffael i reoli ystod o swyddogaethau sy’n ymwneud ag ymchwil, gan gynnwys modiwl i reoli ceisiadau moeseg ymchwil. Bydd modiwlau Worktribe yn cael eu gweithredu fesul cam dros ddwy flynedd, ac amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y modiwl Moeseg yn cael ei lansio a’i gyflwyno ar gyfer gwanwyn 2026.

- **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Moeseg a Data Sydd ar Gael i’r Cyhoedd**
  Sefydlwyd y grŵp hwn i sicrhau bod dull y Brifysgol o adolygu prosiectau’n foesegol gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd yn unig yn briodol ac yn cydbwyso’r angen am system adolygu

moesegol gadarn, tra bod yn gymesur â'r risg ac anghenion y Brifysgol. Datblygodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y 'Fframwaith adolygiad moesegol o ymchwil sydd ond yn defnyddio data eilradd neu wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus', a gafodd gymeradwyaeth y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r fframwaith newydd a'r dogfennau ategol, sy'n weithredol o ddechrau Blwyddyn Academaidd 2024/2025, yn mabwysiadu dull ar sail risg ac wedi'u hanelu at hwyluso proses adolygu moesegol fwy cymesur, effeithiol ac effeithlon.

11.2. Ar y cyd â'r gwaith a wneir yn ganolog, gwnaed llawer o waith yn lleol gan Gadeiryddion ac Aelodau SREC, a staff cymorth lleol, i helpu i wella systemau adolygu moesegol presennol y Brifysgol ac i gefnogi ymchwilwyr i gyrraedd y safonau moesegol uchaf. Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgarwch sydd wedi digwydd yn lleol:

- Coladu adborth/ymateb i ymarferion ymgynghori sy'n gysylltiedig â gwella systemau adolygu moesegol y Brifysgol.
- Darparu gwirfoddolwyr i eistedd ar wahanol Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r broses adolygu moesegol.
- Creu Protocolau Moeseg/Gweithdrefnau Gweithio Safonol ar gyfer prosiectau ymchwil sy'n bodloni "maen prawf adolygu llawn" penodol.
- Gweithredu proses Cais Grŵp ar gyfer adolygiad moesegol a/neu gynnal cynllun peilot o'r broses adolygu moesegol newydd ar gyfer y modiwl cyfan.
- Datblygu canllawiau lleol a/neu ddisgyblaethol ar y broses adolygu moesegol a disgwyliadau'r SRECs.
- Sesiynau gwybodaeth/codi ymwybyddiaeth i staff a myfyrwyr ar broses yr adolygiadau moesegol a'r materion moesegol cyffredin sy'n codi yn y ddisgyblaeth.
- Ymgysylltu â chydweithwyr addysgu a dysgu i ddeall yn well y math o brosiectau myfyrwyr a gynhelir yn yr Ysgol, y risg sy'n gysylltiedig â phrosiectau o'r fath a pha opsiynau adolygu moesegol y gellid eu gweithredu'n lleol i adolygu'r prosiectau hyn yn briodol.

## 12. <u>Camymddygiad Ymchwil</u>

12.1 Diwygiwyd Polisi Camymddygiad Ymchwil Academaidd y Brifysgol ar gyfer Staff yn 2023 ac mae ar gael ar y dudalen we "Camymddygiad Ymchwil Academaidd". Mae Uwch-gynghorydd Cydymffurfedd wedi'i nodi i gefnogi gweithredu'r weithdrefn camymddygiad ymchwil academaidd (ar gyfer staff), gan gynyddu'r gallu i gefnogi gwaith camymddygiad ymchwil academaidd. Yn ogystal, mae'r tîm Cydymffurfedd a Risg wedi datblygu nifer o adnoddau templed yn ymwneud â chamau amrywiol y weithdrefn camymddygiad ymchwil academaidd.

12.2 Yn 2024, bu'r tîm Cydymffurfedd a Risg yn gweithio gyda'r tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg i ddatblygu dwy astudiaeth achos i'w cynnwys yn yr hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil ar-lein i gynorthwyo unigolion i ddeall polisi a gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer Camymddygiad Ymchwil Academaidd a chyfrifoldebau ymchwilwyr.

## 13. <u>Ymchwil Clinigol</u>

13.1. Mae gan Swyddfa Ymchwil ar y Cyd Caerdydd,[1] a sefydlwyd yn 2021, strwythurau llywodraethu ac adrodd sydd wedi'u hen sefydlu. Yn y cyfnod 2023-24, mae Swyddfa Ymchwil ar y Cyd Caerdydd wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu ei systemau rheoli ansawdd, gan gynnwys cofrestr risg ar y cyd. Mae Cynllun Archwilio ar y cyd yn cael ei ddatblygu ar gyfer y cyfnod 2024-25. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y flwyddyn academaidd nesaf.

13.2. Mae gwaith i gryfhau goruchwyliaeth a stiwardiaeth y Brifysgol o ddata digidol y GIG wedi parhau trwy gydol blwyddyn academaidd 2023-24, dan arweiniad gweithgor o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r Brifysgol. Cyflwynodd y Brifysgol ei datganiad Pecyn Cymorth Diogelu a Diogelwch Data GIG Lloegr (Digidol) blynyddol ar ddiwedd mis Mehefin 2024, a bydd gwaith yn dechrau o Ionawr 2025 ar baratoi cyflwyniad Pecyn Cymorth Diogelu a Diogelwch Data GIG Lloegr (Digidol) y Brifysgol ar gyfer 2024-25. Cafodd Gweithdrefn Weithredu Safonol yn manylu ar reolaeth a goruchwyliaeth y Brifysgol o Gofrestr Asedau Gwybodaeth Ddigidol ganolog y GIG ei chwblhau ym mis Ebrill 2024. Disgwylir i Weithdrefn Weithredu Safonol bellach yn manylu ar ddisgwyliadau'r Brifysgol o ran sut mae ymchwilwyr yn rheoli eu defnydd o asedau data digidol y GIG gael ei chwblhau erbyn diwedd 2024.

13.3. Mae blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2024-25 yn cynnwys datblygu systemau rheoli prosiect ac adrodd gwell, gan gynnwys cwmpasu systemau Ffeil Meistr Treial electronig posibl (eTMF); gweithredu grŵp gorchwyl a gorffen ynghylch parodrwydd ar gyfer arolygiad; gwelliant parhaus yn y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil glinigol a chanllawiau presennol mewn meysydd allweddol o lywodraethu a rheoli ymchwil glinigol (fel rheoli diffyg cydymffurfio a materion yn ymwneud â chydsyniad gwybodus).

14. <u>Ymchwil a Llywodraethu mewn perthynas â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol (HTA).</u>

14.1 Mae adolygiad o gwmpas trwydded ymchwil y Ddeddf Meinweoedd Dynol a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd wedi digwydd i reoli risg yn well a lleihau'r baich yn y tymor hir. Ystyriwyd sawl opsiwn gan grŵp gorchwyl a gorffen penodedig ac adolygwyd dulliau gweithredu mewn prifysgolion eraill. Cafodd argymhelliad i newid cwmpas trwydded ymchwil y Ddeddf Meinweoedd Dynol ei gyflwyno i Fwrdd Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd ym mis Medi 2024 gyda chamau gweithredu i'w cymryd yn y flwyddyn academaidd 2024-2025.

14.2 Mae adroddiadau sicrwydd ar gyfer cydymffurfio â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 wedi'u ffurfioli ar gyfer tair trwydded y Ddeddf Meinweoedd Dynol a ddelir gan Brifysgol Caerdydd ac ar gyfer ymchwil sydd wedi'i heithrio o'r drwydded. Bydd yr adroddiad sicrwydd, sy'n seiliedig ar dempled y Brifysgol, yn cael ei adolygu yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored bob blwyddyn academaidd.

---

Partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a lansiwyd ym mis Medi 2021.

14.3 Mae’r Gofrestr Daliadau Meinwe, cronfa ddata fewnol sy’n cofnodi’r holl gasgliadau o feinweoedd dynol yn y Brifysgol, wedi’i hailddatblygu a disgwylir ei chwblhau ym mis Tachwedd 2024. Bydd y gronfa ddata sydd wedi'i hailddatblygu yn cynnwys gwybodaeth a swyddogaethau ychwanegol i symleiddio prosesau, cysylltu â thimau gwasanaethau proffesiynol eraill a rhoi mwy o sicrwydd.

15. Ymchwil a Llywodraethu mewn perthynas ag Anifeiliaid

15.1. Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion hirdymor y “3R” o ran ymchwil anifeiliaid sy'n cyd-fynd ag amnewid, lleihau a mireinio (replacement, reduction and refinement).

15.2. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, gwnaed cynnydd sylweddol yn y prosiect gwella ar gyfer Gwasanaethau Biolegol. Nod y prosiect hwn yw gwneud gwelliannau i gyfleusterau a'r seilwaith sy'n cefnogi ymchwil anifeiliaid. Cymeradwywyd swm o £4.5m yn ystod cam un, a fydd yn cael ei ddefnyddio i brynu seilwaith a fydd yn cysylltu ag unedau trin aer newydd ac i wneud gwelliannau i gefnogi'r offer hyn a chynnal amgylchedd priodol.

15.3. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gwelwyd cynnydd pellach o ran llywodraethu a goruchwylio gwaith anifeiliaid nad yw’n cael ei reoleiddio gan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986. Mae Is-grŵp Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol y Brifysgol wedi diwygio ei gylch gorchwyl i ymgorffori arolygiaeth foesegol y gwaith hwn. Mae dau arbenigwr sy'n arbenigo mewn rhywogaethau nad yw’n cael eu gwarchod a gwaith yn y gwyllt wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol fel aelodau o'r pwyllgor hwn i sicrhau bod yr wybodaeth briodol ar gael ar gyfer cynnal asesiadau moesegol nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986.

15.4. Mae’r ‘Unigolion a Enwir’ a restrir ar y drwydded sefydliad weithdrefnol, o dan nawdd Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986, yn parhau i gefnogi arfer da ynghyd â’r gymuned a reoleiddir. Eleni cyhoeddwyd polisïau newydd (ailddefnyddio nodwyddau) a chanllawiau newydd (rheoli cytrefi, symud a chludo anifeiliaid, cynlluniau astudio ar gyfer y penwythnos).

15.5. Yn ogystal ag ystyried ystod o feysydd a nodwyd trwy'r adolygiad Gonestrwydd Ymchwil mewnol a'r cynllun gweithredu dilynol, mae'r Brifysgol hefyd wedi cymeradwyo'n ffurfiol (trwy ei Phwyllgor Safonau Biolegol a'r Panel Ymchwil a Lles Anifeiliaid) adolygiad canol tymor o drwyddedau prosiectau ar gyfer mwy o oruchwyliaeth o waith trwyddedig.

16. Y Diwylliant Ymchwil

16.1 Cynhaliwyd sawl gweithgaredd yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 i helpu Prifysgol Caerdydd i adeiladu diwylliant ymchwil cadarnhaol sy’n seiliedig ar werthoedd:

- Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Diwylliant Ymchwil a ailddatblygwyd ym mis Mehefin 2024. Roedd hwn yn ddarn o waith sylweddol, wedi’i

arwain gan dystiolaeth, wedi'i lywio gan ein harolwg cyntaf ynghylch diwylliant ymchwil a gynhaliwyd ar draws ein holl gymuned ymchwil. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i strwythuro'n bum thema allweddol, gan gynnwys: Adfachu Amser; Gadael y Seilo; Gwella Systemau i Gefnogi Pobl; Cydnabod Pawb a Gweld eu Gwerth; a Gwella Sicrwydd Swyddi a Datblygiad Gyrfa.

- Ariannwyd 26 o ddigwyddiadau ar lawr gwlad (o dan y thema 'Gadael y Seilo') i gefnogi gweithgareddau sy'n helpu meithrin cymuned, sydd yn aml yn rhyngddisgyblaethol, na fyddent wedi cael eu cefnogi drwy gyllidebau safonol sy'n canolbwyntio ar ddisgyblaethau. Galluogwyd y gronfa gystadleuol hon gan fynediad i tua £80,000 ar gyfer gweithgareddau diwylliant ymchwil, a ddyrannwyd am y tro cyntaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Roedd yr un cronfeydd hyn hefyd wedi ein galluogi i gynnal ein Hwythnos Diwylliant Ymchwil agoriadol, a oedd yn cynnwys rhaglen o naw digwyddiad byr dros bum diwrnod, yn canolbwyntio ar faterion diwylliant ymchwil allweddol sy'n gysylltiedig â themâu'r cynllun gweithredu.

- Yn dilyn y cais llwyddiannus am gyllid diwylliant ymchwil gan Wellcome Trust, mae tîm o bum unigolyn wedi'i benodi, gyda'r gwaith cynllunio ar gyfer cynllunio rhaglenni, recriwtio, gwerthuso a threfnu yn dechrau o ddifrif o fis Chwefror 2024. Mae'r rhaglen yn cael ei lansio ym mlwyddyn academaidd 2024-2025.

17. <u>Ymchwil Agored a Thryloywder</u>

17.1 Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r agenda Ymchwil Agored. Parhaodd y Grŵp Gweithredol Ymchwil Agored ('OROG') i gyfarfod yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Mae'r grŵp yn ymchwilio i newid ei aliniad tuag at weithgarwch sy'n ymwneud â diwylliant ymchwil, gan adlewyrchu bod yr agweddau rheoleiddio ar ymchwil agored yn cael sylw mewn mannau eraill trwy grwpiau goruchwylio eraill.

17.2 Nod y Grŵp Gweithredol Ymchwil Agored yw datblygu ffyrdd y gall y Brifysgol barhau i gefnogi'r gymuned ymchwil yn y maes hwn. Mae'r ffocws wedi bod ar greu platfform hygyrch sy'n coladu ac yn cyfeirio at adnoddau a gwybodaeth sydd eisoes ar gael i'r gymuned ymchwil ac a fydd yn gwella ymwybyddiaeth o'r cymorth ymchwil agored sydd ar gael. Y cam nesaf fydd datblygu cynllun cyfathrebu a hyfforddiant priodol sy'n ymgorffori ymchwil agored o fewn y gymuned ymchwil. Mae mentrau a ddatblygwyd gan gymuned ymchwil y Brifysgol yn cynnwys grŵp Darllen a Thrafod Atgynyrchioldeb Ymchwil ar gyfer ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am arferion ymchwil dryloyw.

17.3 Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Brifysgol wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau gyda'r nod o gryfhau Ymchwil Agored a'r cymorth a ddarperir i'r gymuned ymchwil. Er enghraifft:

- Ar ôl caffael y system Figshare for Institutions yn 2023, bu'r Gwasanaeth Llyfrgell yn arwain gweithgareddau yn ymwneud â gweithredu <u>Ystorfa Ddata Ymchwil newydd Prifysgol Caerdydd</u>. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ymchwil agored trwy ganiatáu i ymchwilwyr rannu eu data â'r

byd, yn unol ag egwyddorion data FAIR. Rhoddir DOI i bob set ddata a gyhoeddir, a gellir lawrlwytho setiau data yn uniongyrchol o'r rhyngwyneb. Mae yna hefyd swyddogaeth i gefnogi rhannu setiau data mawr neu sensitif.

- Yn dilyn ymlaen o brosiect Mynediad Agored y llynedd, a adolygodd gyfraddau cydymffurfio cyhoeddiadau mynediad agored, mae'r cyfraddau cydymffurfio yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol bob mis yn uniongyrchol i'r Rhag Is-Ganghellor ar gyfer Ymchwil, Arloesedd a Menter. Pan nodir gostyngiad o ran cydymffurfio, mae deoniaid ymchwil ac ysgolion y colegau perthnasol yn cymryd camau.

- Cyfraniad at Wythnos Diwylliant Ymchwil gyda chyflwyniad ar "Cyhoeddi Rheibus ac Ymchwil Agored". Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd hefyd wedi darparu amrywiaeth o sesiynau ymwybyddiaeth mynediad agored wedi'u teilwra i ysgolion ac wedi darparu sesiynau ar-lein sydd ar gael i bawb ar bynciau megis "Esbonio mynediad agored", "Rheoli data ymchwil", "Arfarniad beirniadol o adolygiad systematig" a "Paratoi i Gyhoeddi ". Mae'r gyfres hon o sesiynau wedi'i hadolygu a'i hehangu ymhellach a bydd yn cael ei hysbysebu o dan raglen gyffredinol "Cip ar y Llyfrgell @" dros y flwyddyn nesaf.

- Cafodd y cynllun peilot Cadw Hawliau ei ymestyn i fis Tachwedd 2024. Er bod canlyniadau cychwynnol ac adborth yn addawol, nid oedd yr amserlen wreiddiol yn cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol i gynnwys cylchoedd cyhoeddi pob disgyblaeth.

- Cymryd rhan mewn mentrau'r Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth i hwyluso rhannu gwybodaeth a phrofiad ar bolisïau cadw hawliau rhwng sefydliadau'r DU.

## 18 Ymchwil Ddibynadwy

18.1 Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r agenda "Ymchwil Ddibynadwy" ac wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau yn y maes hwn yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, gyda chefnogaeth Swyddog Gonestrwydd a Chydymffurfedd Ymchwil newydd. Mae enghreifftiau o weithgareddau perthnasol yn cynnwys:

18.1.1 Parhau i ymgysylltu â Fforwm Ymchwil Ddibynadwy'r Grŵp Russell, y Gymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch ('HEECA'), y Tîm Cyngor ar Ymchwil ar y Cyd ('RCAT') a'r Awdurdod Diogelwch Diogelu Cenedlaethol ('NPSA') i drafod syniadau a rhannu arfer gorau. Mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â'r Tîm Cyngor ar Ymchwil ar y Cyd i drafod egwyddorion ac arferion ymchwil ddibynadwy.

18.1.2 Sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant parhaus gydag amrywiol grwpiau / timau mewnol allweddol, gan gynnwys tîm Contractau Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi, y Swyddfa Ryngwladol, y Grŵp Strategaeth Ryngwladol, Swyddfa Ymchwil yr Ysgol Peirianneg, Clwb Grantiau Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg, Cynhadledd Fforwm Gweinyddwyr Ymchwil.

18.1.3 Mapio meysydd ymchwil risg uwch yn y Brifysgol i lywio cynllun cyfathrebu effeithiol wedi'i dargedu ar gyfer 2024/2025.

18.1.4 Cyfarfodydd ag ymchwilwyr sy'n gweithredu mewn meysydd ymchwil risg uwch i annog ymgysylltiad gan eu grwpiau/timau ehangach a hunanatgyfeiriadau i'r Tîm Gonestrwydd, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil ar gyfer asesiadau ymchwil ddibynadwy.

18.1.5 Sefydlu'r Grŵp Goruchwylio Ymchwil Ddibynadwy gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn hydref 2024. Bydd y Grŵp Goruchwylio Ymchwil Ddibynadwy yn darparu trosolwg o'r Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Ddibynadwy yn y Brifysgol, gan sicrhau bod y Brifysgol yn datblygu ac yn cynnal strategaeth rheoli risg sy'n cydbwyso buddion a risgiau ymchwil ryngwladol ar y cyd.

18.1.6 Gweithredu proses asesu adolygiad dibynadwy newydd, archwiliadwy ar sail risg sy'n darparu adborth safonol a chyson i'r holl staff sy'n cysylltu â'r Tîm Gonestrwydd, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil am adolygiad neu arweiniad ymchwil ddibynadwy.

## 19 Rheoli data

19.1 Ochr yn ochr â gweithgarwch busnes fel arfer i gefnogi arfer da ym maes rheoli data ymchwil, gan gynnwys darparu cyngor, hyfforddiant a chymorth, bu nifer o weithgareddau penodol i gefnogi ein cymuned ymchwil ymhellach a/neu well llywodraethu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024. Er enghraifft:

19.1.1 Cefnogaeth i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Moeseg a Data Sydd ar Gael i'r Cyhoedd i gynhyrchu fframwaith ar gyfer yr adolygiad moesegol o ymchwil gan ddefnyddio data eilaidd a/neu wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn unig. Roedd hyn yn cynnwys creu templed Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer senarios lle bydd ymchwilwyr yn cael anhawster cysylltu â ffynhonnell/ffynonellau'r data.

19.1.2 Cwblhau Prawf Buddiannau Dilys ar gyfer sefyllfaoedd lle mae'n rhaid i'r brifysgol rannu ychydig iawn o ddata personol â chyrff cyllido pan fyddwn yn derbyn cwynion am Gamymddygiad Ymchwil Academaidd.

19.1.3 Cwblhawyd y broses o roi'r Storfa Data Ymchwil sefydliadol newydd ar waith (gweler yr adran ar 'Ymchwil Agored a Thryloywder'), gyda lansiad meddal dros yr haf tra bod cofnodion presennol yn cael eu mudo o'r Porth Ymchwil. Bydd cyfathrebu a hyrwyddo ehangach yn ystod yr hydref, gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion i ddarparu mwy o wybodaeth am y gwasanaeth newydd ochr yn ochr ag eiriolaeth ynghylch agweddau ehangach ar reoli data ymchwil.

## 20 Ymgysylltu allanol a rhannu'r arferion gorau

20.1 Mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allanol i rannu arfer gorau, archwilio trefniadau llywodraethu effeithiol a mentrau ar gyfer hyrwyddo Gonestrwydd Ymchwil ac i ddylanwadu ar y cyd ar bolisi ac arfer. Yn benodol, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn aelod gweithgar o UKRIO a Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell, yn ogystal â grwpiau pwnc-benodol fel Fforwm Ymchwil Ddibynadwy Grŵp Russell, UKRN, HEECA a Chymdeithas Noddwyr y Brifysgol.

**Gweithgareddau yn yr arfaeth**

21 Ochr yn ochr â'r gweithgareddau amrywiol y cyfeiriwyd atynt eisoes yn y Datganiad Blynyddol hwn fel rhai sy'n dechrau neu'n dod i ben yn ystod y Flwyddyn Academaidd nesaf, bydd ein ffocws a'n sylw Gonestrwydd Ymchwil yn ystod Blwyddyn Academaidd 2024/2025 yn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'r camau gweithredu sydd yn ein Cynllun Gweithredu ar Onestrwydd Ymchwil ac yn arbennig datblygu'r meysydd gwaith a ganlyn:

- Moeseg Ymchwil – parhau i gefnogi'r cynllun peilot o'n sianeli adolygu moesegol newydd ar gyfer gweithgarwch israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, cynllunio ar gyfer gweithredu Worktribe, ac adolygiad o opsiynau ar gyfer polisi a gweithdrefn adolygu moesegol sy'n gymesur o ran risg.

- Gwelededd, gwobr a chydnabyddiaeth – ceisio sicrhau bod dangos rhagoriaeth wrth gefnogi a/neu ymgorffori Gonestrwydd Ymchwil yn cael ei adlewyrchu'n well yn systemau gwobrwyo a chydnabod y Brifysgol.

- Ymchwil Ddibynadwy - datblygu ymhellach systemau ac offer y Brifysgol i gefnogi ymchwilwyr ac i helpu i sicrhau arfer cyfrifol yn y maes hwn.

**Ymdrin â honiadau o Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil**

22 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei phrosesau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddygiad ymchwil yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn, yn deg ac yn briodol i anghenion y Brifysgol.

<u>Honiadau yn erbyn staff Prifysgol Caerdydd</u>

23 Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil Academaidd o ddifrif ac mae ganddi weithdrefn benodol i ymdrin â honiadau o'r fath. Mae Polisi a Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd y Brifysgol ('Y Weithdrefn ARM'), ynghyd â swyddog penodol a enwir, ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

24 Mae gan y weithdrefn ARM dri cham. Ym mhob cam, mae'n bosibl y caiff y cyhuddiadau eu gollwng neu eu dwyn ymlaen i'r cam nesaf:

24.1 Cam 1 – Cam Rhagarweiniol lle bydd yr unigolyn a enwir (neu ddirprwy) yn adolygu'r honiad(au) i benderfynu a ydynt yn dod o fewn cwmpas y Brifysgol i fynd i'r afael â hwy ac, os felly, beth fyddai'r broses fwyaf priodol i ymchwilio iddynt neu fel arall mynd i'r afael â nhw, gan gyfeirio at y meini prawf canlynol:

a) A yw'r Ymatebydd (neu'r Ymatebwyr) yn cynnal ymchwil dan nawdd y Brifysgol, boed yn unigol neu ar y cyd ag eraill yn y Brifysgol, neu gyrff eraill neu ar y cyd â chyrff eraill;

b) A yw'r prosiect(au) ymchwil y mae'r honiad yn ymwneud ag ef yn cael eu cynnal o dan adain y Brifysgol, boed yn unigol neu ar y cyd â chyrff eraill; a

c) A yw'r honiad(au) yn dod o fewn y diffiniad o Gamymddwyn Ymchwil Academaidd a ddisgrifir yn adran ddiffinio'r Polisi.

Wrth gynnal yr adolygiad uchod bydd y Person a Enwir yn asesu'r dystiolaeth a ddarperir ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd y person a enwir yn cofnodi canlyniad yr adolygiad ac a yw'r honiadau: yn cael eu gwrthod; yn gwarantu cyfeiriad uniongyrchol i broses ffurfiol arall (mewnol neu allanol); yn fân eu natur a gellir mynd i'r afael â nhw drwy ddull anddisgyblaethol (e.e. hyfforddiant); neu eu bod yn bodloni'r diffiniad o honiad o gamymddygiad ymchwil academaidd a byddant yn symud ymlaen i gam y panel sgrinio.

24.2 Cam 2 – Cam sgrinio lle bydd panel o aelodau mewnol o staff sydd ag arbenigedd a statws academaidd perthnasol yn cynnal gwerthusiad o'r holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â'r honiad a ddarparwyd gan yr Achwynydd/Archwynwyr a'r Atebydd/Atebwyr. Bydd penderfyniadau ac argymhellion y panel yn cael eu cofnodi a bydd yn penderfynu a oes angen ymchwiliad ffurfiol.

24.3 Cam 3 – Cynhelir Cam Ymchwiliad Ffurfiol pan sefydlir panel a fydd yn cynnwys cadeirydd annibynnol a diduedd yn ogystal â dau aelod diduedd sy'n meddu ar yr arbenigedd a statws priodol. Dylai'r Cadeirydd ac o leiaf un o'r ddau aelod fod o'r tu allan i'r Brifysgol, ac ni ddylent fod yn weithwyr y Brifysgol nac yn gweithio o dan gontract i'r Brifysgol. Ni ddylai'r aelod mewnol fod yn aelod o staff yn yr un Ysgol â'r Atebydd.

<u>Honiadau yn erbyn myfyrwyr</u>

25 Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o gamymddwyn gan fyfyrwyr yn ystod ymchwil, neu'n gysylltiedig â hi, o ddifrif ac mae ganddi ystod o bolisïau a gweithdrefnau i ymdrin â honiadau o'r fath. Bydd yr union bolisi a gweithdrefn i'w defnyddio yn dibynnu ar natur yr honiad/ymddygiad honedig a lefel y rhaglen y mae'r myfyriwr wedi ymrestru arni. Y polisi mwyaf perthnasol mewn perthynas â chamymddwyn gan fyfyrwyr yn y cyd-destun penodol hwn yw Polisi Gonestrwydd Academaidd y Brifysgol a'r Gweithdrefnau cysylltiedig o ran Camymddwyn Academaidd. Mae pob un o'r rhain yn rhan o Reoliadau Academaidd y Brifysgol sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

26 Mae Polisi Gonestrwydd Academaidd y Brifysgol yn nodi egwyddorion cyffredinol yr hyn a olygir gan Gamymddwyn Academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gynnwys diffiniad o 'Camymddwyn Academaidd mewn Ymchwil' sy'n cyd-fynd â'r categorïau camymddwyn sydd yn y Concordat. Mae'r polisi'n cadarnhau y bydd Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd berthnasol yn cael

ei defnyddio ar gyfer unrhyw fyfyriwr yr honnir iddo gymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath. Y gweithdrefnau perthnasol y cyfeirir atynt yw Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd (Graddau Ymchwil) y Brifysgol a Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd y Brifysgol (Myfyrwyr a Addysgir).

27 Mae gan Weithdrefnau Camymddwyn Academaidd y Brifysgol broses deg a chlir sy'n ystyried ac yn ymchwilio i bryderon ynghylch camymddwyn academaidd. Mewn perthynas â'r Weithdrefn Camymddwyn Academaidd (Graddau Ymchwil) yn benodol, mae gan y weithdrefn dri cham, sef:

27.1 Cam 1 (Adolygiad Rhagarweiniol) - bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu Gadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd (neu'r enwebai priodol), fel y bo'n berthnasol, yn cynnal adolygiad cychwynnol o'r pryderon. Gan ddibynnu ar bryd y codwyd y pryderon, mae'n bosibl mai canlyniad yr Adolygiad Rhagarweiniol fydd gwrthodi'r pryderon, cymryd camau adferol neu gyfeirio'r pryderon at ymchwiliad Cam 2.

27.2 Cam 2 (Ymchwiliad Ffurfiol) - bydd Pennaeth yr Ysgol yn penodi un o uwch-aelodau staff academaidd yr ysgol i fod yn Swyddog Ymchwilio ac ystyried y pryderon, cwrdd â'r partïon perthnasol a llunio adroddiad. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn ystyried yr adroddiad a'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu, ar sail tebygolrwydd, a gafwyd Camymddwyn Academaidd. Caiff Pennaeth yr Ysgol wrthod y pryderon os nad oes sail iddynt neu os nad oes digon o dystiolaeth bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, neu caiff benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd. Os penderfynir bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, caiff Pennaeth yr Ysgol gyfeirio'r achos at Banel Gonestrwydd Academaidd Cam 3 neu caiff benderfynu, oherwydd lefel y difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol eraill, nad yw'r achos yn cyfiawnhau cael ei gyfeirio at Gam 3 ac y gellir cymryd camau adferol penodol yn lle hynny.

27.3 Cam 3 (Panel Gonestrwydd Academaidd) - caiff Panel Gonestrwydd Academaidd ei gynnull, sy'n cynnwys 3 aelod staff academaidd o'r tu allan i'r Ysgol, i ystyried yr achos. Gall y panel wrthod y pryderon neu benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd. Os yw'r panel yn penderfynu bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, caiff osod un gyfres neu ragor o gamau gweithredu a sancsiynau rhestredig sy'n cynnwys, er enghraifft, ymddiheuriad ysgrifenedig, addasu traethawd ymchwil a cheryddon ffurfiol eraill gan gynnwys gwaharddiad o'r Brifysgol.

28 Mae gan y Brifysgol Dîm Achosion Myfyrwyr canolog sydd â'r rôl ganlynol mewn perthynas ag achosion o Gamymddwyn Academaidd:

28.1 Cynghori Ysgolion ar y camau sydd eu hangen yn unol â'r gweithdrefnau;

28.2 Cynnull panel, a chefnogi proses y panel (os penderfynwyd yn ystod yr ymchwiliad cynharach bod angen panel); a

28.3 Chofnodi canlyniad ymchwiliad, beth bynnag fo'r canlyniad (gan gynnwys gwrthod y pryderon).

**Datganiad ar ymchwiliadau i Gamymddygiad Ymchwil**

29 Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, derbyniwyd wyth o honiadau / setiau o honiadau o dan Weithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd (ARM) y Brifysgol (ARM 24.01 – ARM 24.08). Dyma oedd y penderfyniadau yn yr achosion hyn:

29.1 ARM 24.01 – Honiad o gamliwio (awduraeth) – gwrthodwyd yn y cam adolygiad rhagarweiniol gan fod yr erthygl ymchwil yn y cam cyflwyno i gyfnodolyn pan godwyd pryderon ynghylch awduraeth arfaethedig. Roedd y Pennaeth Ysgol perthnasol yn gallu datrys y pryderon a godwyd gyda'r unigolion dan sylw trwy drafodaethau anffurfiol.

29.2 ARM 24.02 – Honiad o gamddefnyddio data personol (rhannu data'n amhriodol) – Cynhaliwyd adolygiad rhagarweiniol cynhwysfawr gyda chyngor arbenigol ar ofynion diogelu data gan Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o gamymddwyn fel rhan o'r adolygiad rhagarweiniol. Darparodd y grŵp ymchwil dystiolaeth o'r gweithdrefnau cywir a ddilynwyd.

29.3 ARM 24.03 – Gwnaeth cyfnodolyn ymholiad ynghylch sylwadau yn ymwneud â thrin delweddau ar PubPeer. Dywedodd Prifysgol Caerdydd wrth y cyfnodolyn nad oedd y mater wedi'i godi fel honiad ARM gyda'r Brifysgol, ond cynhaliodd y Pennaeth Ysgol perthnasol adolygiad rhagweithiol o'r sylwadau ar PubPeer. Canfu'r adolygiad fod y papur wedi'i gynhyrchu o ganlyniad i gydweithio rhwng academyddion yng Nghaerdydd a phrifysgol arall, a chafodd yr awdur cyfatebol y dasg o adolygu ac ymateb i'r materion penodol a godwyd ar PubPeer gyda goruchwyliaeth gan y partneriaid prifysgol perthnasol.

Argymhellodd Prifysgol Caerdydd hefyd wersi a ddysgwyd o'r adolygiad, a'u rhoi ar waith, gan gynnwys sicrhau hyfforddiant, cymeradwyaeth a phroses drylwyr ar gyfer cynhyrchu llawysgrifau gydag ymchwilwyr/cymrodyr a chydweithwyr a oedd yn ymweld yn ystod ac ar ôl eu hymweliad â Phrifysgol Caerdydd.

29.4 ARM 24.04 – Honiad(au) o awduraeth/llên-ladrad – Nododd yr adolygiad rhagarweiniol fod y mater hwn yn ymwneud â chategori perthnasol o ARM – Camliwio (gwadu awduraeth) a bod yr ymchwil dan sylw yn dod o dan adain Prifysgol Caerdydd. Sefydlwyd Panel Sgrinio, ac yn dilyn adolygiad o'r holl wybodaeth/tystiolaeth berthnasol, gwrthododd y panel sgrinio'r ddau honiad. Gwnaed tri argymhelliad gan y panel, sydd wedi'u rhannu gyda'r partïon perthnasol. Mae'r Pennaeth/Penaethiaid Ysgol(ion) perthnasol wedi cydnabod derbyn yr argymhellion a byddant yn gweithio gyda'r ymatebwyr i'w gweithredu.

29.5 ARM 24.05 – Anghydfod awduraeth a godwyd gyda Phrifysgol Caerdydd gan fod yr awdur cyfatebol yn academydd o Brifysgol Caerdydd. Daeth adolygiad rhagarweiniol i'r casgliad, gan nad oedd y papur wedi'i gyhoeddi eto, na fu unrhyw ARM. Mae'r awdur cyfatebol yn cael ei gefnogi gan y Cyfarwyddwr Ymchwil perthnasol ac mae'n ceisio datrys y mater hwn o awduraeth cyn cyhoeddi.

29.6 ARM 24.06 – Honiad o drin delweddau. Argymhellodd adolygiad rhagarweiniol y dylid symud yr honiad i'r Panel Sgrinio. Cydnabu’r Panel Sgrinio ymateb yr ymatebwyr, lle gwnaethant ddatgan fod camgymeriad wedi’i wneud a bod panel anghywir ar waith. Ar ôl ystyried yn ofalus, daeth y panel i’r casgliad bod hwn yn gamgymeriad gwirioneddol, gan nad oedd tystiolaeth i awgrymu ei fod yn fwriadol, ac ni chafodd y camgymeriad effaith sylweddol ar ganfyddiadau cyffredinol y papur. Daeth y mater i ben yn ystod cam y panel sgrinio a gwnaed nifer fach o argymhellion gan y panel – gyda’r Pennaeth/Penaethiaid Ysgol(ion) perthnasol yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad yr argymhellion.

29.7 ARM 24.07 – Anghydfod ynghylch awduraeth – Ar hyn o bryd Parhaus – Panel Sgrinio wedi'i gynnull.

29.8 ARM 24.08 – Honiad o Gamliwio Cyfranogiad (anghydfod ynghylch awduraeth). Nododd yr adolygiad rhagarweiniol fod ymchwiliad wedi'i gynnal gan y Brifysgol arweiniol ar gyfer yr ymchwil. Adolygodd y Pennaeth Cydymffurfedd a Risg adroddiad yr ymchwiliad ac roedd yn fodlon bod y weithdrefn gywir wedi'i dilyn i ymchwilio i'r materion a godwyd o ran awduraeth.

30 Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, cafwyd tri adroddiad o gamymddwyn academaidd honedig o ran ymchwil gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Dyma oedd y deilliannau yn yr achosion hyn:

30.1 Achos 1 – Mynegwyd pryderon ynghylch traethawd ymchwil a gyflwynwyd i'w archwilio. Cynhaliodd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yr Ysgol adolygiad rhagarweiniol (ymchwiliad Cam 1) a daeth i'r casgliad y dylid dychwelyd y traethawd ymchwil i'r ymgeisydd ar gyfer gwaith adfer. Nid oedd cyfiawnhad dros gynnal ymchwiliad Cam 2. Rhoddodd Deon Ôl-raddedig y Coleg estyniad o ddau fis i'r myfyriwr adolygu'r traethawd ymchwil.

30.2 Achos 2 – Codwyd pryderon gan yr arholwr mewnol ar ôl yr arholiad viva. Cynhaliodd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yr Ysgol adolygiad rhagarweiniol (ymchwiliad Cam 1). Ystyriwyd ei bod yn briodol i’r myfyriwr gael y cyfle i gywiro’r traethawd ymchwil cyn ei ailgyflwyno a chyn ailsefyll arholiad, a byddai’r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn rhoi arweiniad. Nid oedd cyfiawnhad dros gynnal ymchwiliad Cam 2.

30.3 Achos 3 – Mae ymchwiliad yn mynd rhagddo.

31 Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024, nid oedd unrhyw (0) ymchwiliadau i Gamymddwyn Academaidd mewn Ymchwil yn ymwneud â myfyrwyr israddedig / myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a gyrhaeddodd Banel Gonestrwydd Academaidd.

<u>Beth mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu o'r ymchwiliadau?</u>

32 Dysgwyd y gwersi canlynol yn sgil yr ymchwiliadau ARM a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024:

32.1 Mai awduraeth yw'r gŵyn amlaf o hyd o dan y Polisi Camymddygiad Ymchwil Academaidd (Staff). Mae hyn wedi ysgogi datblygiad senario yn ymwneud ag awduraeth i'w chynnwys yn y modiwl hyfforddi ar-lein ar Onestrwydd Ymchwil a chynnwys gwybodaeth glir yn ymwneud â datrys anghydfodau ynghylch awduraeth yn y polisi/gweithdrefn.

32.2 Mewn cysylltiad ag ARM24.02, ei bod yn werthfawr ymgysylltu â chyngor arbenigol yn gynnar yn yr adolygiad rhagarweiniol (e.e. yn yr achos hwn Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol) gan y gall hyn helpu i ddatrys materion yn ystod y cam adolygu lle gellir craffu ar, a dangos tystiolaeth o, gydymffurfedd â'r gweithdrefnau cywir.

32.3 Ei bod yn parhau i fod yn heriol i brifysgolion a chyfnodolion benderfynu pryd/os i gymryd camau rhagweithiol i ymateb i sylwadau PubPeer pan nad yw'r rhain wedi'u codi'n ffurfiol gyda'r Brifysgol fel honiad o gamymddygiad ac ar adegau maent yn cael eu mynegi/tystio yn wael gan unigolyn dienw. Gall hyn fod yn fater y gallai Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU ddarparu cyngor/arweiniad pellach arno i brifysgolion.

Creu ac ymgorffori diwylliant ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus eu bod yn gallu rhoi gwybod am achosion o gamymddwyn

33 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i feithrin diwylliant lle mae pob un o'i staff a'i myfyrwyr yn gallu rhoi gwybod am gamymddwyn a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses hon. Mae gan y Brifysgol sawl mecanwaith at ddibenion hyn gan gynnwys:

- Y cyngor a'r cymorth sydd ar gael gan dimau/cysylltiadau canolog y Brifysgol ar ystod o bynciau a themâu gan gynnwys Gonestrwydd ymchwil, moeseg ymchwil, diwylliant ymchwil, asesu ymchwil gyfrifol a chwythu'r chwiban.
- Enw cyswllt penodol a enwir ar gyfer honiadau ARM.
- Rhwydwaith o Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil yr Ysgolion a Swyddogion Moeseg (yr enwau cyswllt lleol).
- Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol sy'n ymwneud â chynnwys pwrpasol ar roi gwybod am gamymddygiad ymchwil ac sy'n cyfeirio staff at gefnogaeth fewnol a'r UKRIO sy'n rhoi cyngor allanol ac annibynnol.
- Cyflwyno sesiynau penodol i Ysgolion am Onestrwydd Ymchwil a/neu hyfforddiant ar gamymddygiad ymchwil pan fo angen neu pan ofynnir am hyn.

34 Bydd y Brifysgol yn parhau i adolygu a monitro ei hymagwedd yn y maes hwn ac yn ymateb i unrhyw adborth a dderbynnir trwy'r amrywiol sianeli a nodir uchod. Rhagwelir y bydd gwaith a mentrau'r Brifysgol yn ymwneud â diwylliant ymchwil hefyd yn helpu i sicrhau adlewyrchiad priodol yn y maes hwn.

**Paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn**

35 Cydlynwyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Blynyddol hwn gan y Tîm Gonestrwydd, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil (RIGE). Nodwyd drafft o'r

datganiad hwn gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ar 25 Hydref 2024 ac fe'i cymeradwywyd gan ORIEC ar 22 Hydref 2024.

36 Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol hefyd gan Bwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol ar 20 Tachwedd 2024 ac fe'i nodwyd gan y Senedd a'r Cygnor ar 6 Tachwedd 2024 a 26 Tachwedd 2024 yn y drefn honno.

**Cwestiynau ar y Datganiad Blynyddol hwn**

37 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Datganiad Blynyddol hwn at Dîm Gonestrwydd, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil y Brifysgol (resgov@caerdydd.ac.uk).

**Yr Athro Roger Whitaker**
**Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter**
**Tachwedd 2024**

## Allwedd Talfyriadau

| | |
|---|---|
| **ARM** | Camymddwyn o ran Ymchwil Academaidd |
| **ASPA** | Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 |
| **CrediT** | Tacsonomeg Rolau Cyfranwyr |
| **DORA** | Datganiad ar Asesu Ymchwil |
| **GW4** | 4 Cymru a De-Orllewin Lloegr/Cynghrair y GW4 |
| **HEECA** | Cymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch |
| **CCAUC** | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| **HTA** | Deddf Meinweoedd Dynol 2004 |
| **JRGG** | Grŵp Llywodraethu Ymchwil ar y Cyd |
| **JRO** | Swyddfa Ymchwil ar y Cyd |
| **Mres** | Meistr mewn Ymchwil |
| **Mphil** | Meistr mewn Athroniaeth |
| **ORCA** | Ymchwil Ar-lein@Caerdydd (ein storfa sefydliadol) |
| **ORIEC** | Y Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored |
| **OROG** | Y Grŵp Gweithredol ar Ymchwil Agored |
| **PGT** | Ôl-raddedig a Addysgir |
| **PARATOI** | Cynllunio Ymchwil a Gweithdrefnau Arbrofol ar Anifeiliaid@ Argymhellion er Rhagoriaeth. |
| **PVC** | Rhag Is-ganghellor |
| **RCAT** | Tîm Cyngor Ymchwil ar y Cyd |
| **REF** | Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil |
| **RI** | Gonestrwydd Ymchwil |
| **RI CoP** | Cod Ymarfer Gonestrwydd a Llywodraethu Gwaith Ymchwil |
| **RIGE** | Y Tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg |
| **RTS** | Gweddnewid Gwasanaethau |
| **SOP** | Gweithdrefn Weithredu Safonol |
| **SREC** | Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgolion |
| **UEB** | Bwrdd Gweithredol y Brifysgol |
| **UG** | Israddedig |
| **UK CORI** | Pwyllgor y DU ar Onestrwydd Ymchwil |
| **Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Gyfunol (UKRI)** | Ymchwil ac Arloesedd y DU |
| **UKRIO** | Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU |
| **UKRN** | Rhwydwaith Atgynhyrchu'r DU |
| **WISERD** | Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru |